# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 26 Ionawr 2007

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau*

**Alun Ffred Jones (Caernarfon):** Pa amodau a bennwyd ar gyfer y cymhelliant ariannol a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng nghais llwyddiannus Sain Tathan am academi hyfforddi'r lluoedd arfog. (WAQ49098)

**Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant buddsoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn economi Sir Gaerfyrddin er 1999.

**Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant buddsoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn economi Ceredigion er 1999. (WAQ49107)

**Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant buddsoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn economi Gwynedd er 1999. (WAQ49108)

**Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant buddsoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn economi Powys er 1999. (WAQ49109)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog restru buddsoddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn addysg yn Sir Gaerfyrddin er 1999. (WAQ49102)

**Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog restru buddsoddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn addysg yng Ngheredigion er 1999. (WAQ49103)

**Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog restru buddsoddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn addysg yng Ngwynedd er 1999. (WAQ49104)

**Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog restru buddsoddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn addysg ym Mhowys er 1999. (WAQ49105)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Sawl apêl sydd wedi'i gwneud gan aelwydydd yng Nghymru yn erbyn ailbrisio a: a) faint sydd wedi llwyddo; b) faint ym mhob etholaeth. (WAQ49114)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** Pa arian argyfwng y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei ddarparu ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru i ymdopi â difrod storm. (WAQ49116)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y cyfanswm a dalwyd gan sefydliadau'r GIG fel rhan o gontractau Menter Cyllid Preifat ar gyfer pob blwyddyn er 1999, ac a wnaiff fanylu am y swm ar gyfer pob prosiect. (WAQ49099)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion, ar gyfer ardal pob BILl, yr amser aros ar gyfartaledd ar gyfer cael cymorth clyw digidol. (WAQ49100)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddweud faint o bobl ym mhob BILl sy'n disgwyl am gymorth clyw digidol. (WAQ49101)

**Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog restru'r buddsoddiadau cyfalaf a'r cynnydd o ran gwariant yng nghyllideb Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin a'r cyrff a'i rhagflaenodd a wasanaethai Sir Gaerfyrddin er 1999. (WAQ49110)

**Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog restru'r buddsoddiadau cyfalaf a'r cynnydd o ran gwariant yng nghyllideb Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion a'r cyrff a'i rhagflaenodd a wasanaethai Geredigion er 1999. (WAQ49111)

**Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog restru'r buddsoddiadau cyfalaf a'r cynnydd o ran gwariant yng nghyllideb Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd a'r cyrff a'i rhagflaenodd a wasanaethai Wynedd er 1999. (WAQ49112)

**Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog restru'r buddsoddiadau cyfalaf a'r cynnydd o ran gwariant yng nghyllideb Bwrdd Iechyd

Lleol Powys a’r cyrff a’i rhagflaenodd a wasanaethai Bowys er 1999. (WAQ49113)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Pa bryd yr hysbyswyd y Gweinidog bod swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi trafod â'r Adran Iechyd gysondeb o ran gwariant ar iechyd. (WAQ49115)